



Holiadur Ymddygiad ar gyfer Cwnstabliaid Heddlu

Gwybodaeth ar gyfer
ymgeiswyr

Mae'r daflen hon yn rhoi gwybodaeth i chi am yr Holiadur Ymddygiad ar gyfer Cwnstabliaid Heddlu. Mae'n disgrifio pam fod y prawf hwn wedi'i ddefnyddio, beth fydd ffurf y prawf, a sut fedrwch chi fynd i'r afael â'r sesiwn brofi.

Pam ydw i'n cael fy holi i wneud prawf?

Bydd y prawf hwn yn cael ei ddefnyddio ochr yn ochr â gwybodaeth arall am dalentau a phrofiadau pobl er mwyn asesu pa un ai a oes gan rywun y cryfderau, agweddau ac ymddygiadau cywir i fodloni anghenion swydd.

Dewiswyd y prawf hwn am ei fod yn asesu galluoedd sydd wedi'u nodi fel rhai sy'n bwysig ar gyfer perfformiad llwyddiannus yn y rôl. Mae defnyddio profion yn cynnig nifer o fanteision, gan gynnwys y canlynol:

- Maen nhw'n cynnig dull gwrthrychol o asesu pobl yn seiliedig ar feini prawf sy'n berthnasol ar gyfer y swydd
- Maen nhw'n rhoi cyfle i ymgeiswyr arddangos eu cryfderau a'u galluoedd

Beth yw'r Holiadur Ymddygiad ar gyfer Cwnstabliaid Heddlu?

Mae'r Holiadur Ymddygiad ar gyfer Cwnstabliaid Heddlu yn mesur eich ymddygiad nodweddiadol a'ch hoffterau yn y gwaith. Diben yr holiadur hwn yw asesu pa un ai a oes gennych chi'r ymddygiadau a'r agweddau cywir i fod yn effeithiol yn y rôl. Mae'r holiadur hwn yn eich gwahodd i adolygu nifer o ddatganiadau a nodi pa ddatganiadau rydych chi'n cytuno'n llwyr â nhw neu'n anghytuno'n llwyr â nhw ar raddfa symudol.

Yn yr holiadur, cyflwynir y datganiadau hyn i chi am eich ymddygiad nodweddiadol yn y gwaith mewn blociau o bedwar. Bydd angen i chi ddarllen pob datganiad yn ofalus ac yna penderfynu i ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad gan ddefnyddio'r raddfa symudol isod.

- Anghytuno'n llwyr
- Anghytuno'n gryf
- Anghytuno rhywfaint
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Cytuno rhywfaint
- Cytuno'n gryf
- Cytuno'n llwyr

Gan ddibynnu ar eich ymatebion, mae'n bosibl y gofynnir i chi raddio datganiadau penodol o ran pa mor dda maen nhw'n disgrifio'ch ymddygiad nodweddiadol yn y gwaith.

Does dim cyfyngiad amser, ond dylai gymryd tua 15 i 20 munud i gwblhau'r holiadur. Nid oes angen unrhyw wybodaeth arbenigol i gwblhau'r prawf.

Isod, fe welwch gwestiwn enghreifftiol sy'n debyg i un y gofynnir i chi gwblhau pan fyddwch chi'n llenwi'r Holiadur Ymddygiad ar gyfer Cwnstabiolaidd Heddlu. Bydd hyn yn eich helpu i ddeall ffurf y prawf a'r mathau o gwestiynau a ofynnir i chi.

Cwestiwn Enghreifftiol

Isod, dangosir rhai datganiadau sydd wedi'u cwblhau fel enghraifft i'ch helpu i ddeall ffurf yr holiadur. Yn yr enghraifft isod, mae'r ymatebydd wedi nodi ei fod yn cytuno'n gryf â datganiadau 1 a 2, yn anghytuno'n gryf â datganiad 3, ac yn cytuno rhywfaint â datganiad 4.

	Anghytuno'n Llwyf	Anghytuno'n Gryf	Anghytuno Rhywfaint	Ddim yn Cytuno Nac yn Anghytuno	Cytuno Rhywfaint	Cytuno'n Gryf	Cytuno'n Llwyf
Rwy'n sicrhau fy mod i'n gwneud pethau i'r safon uchaf.	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>
Rwy'n aros yn driw i'r hyn rwy'n credu ynddo, hyd yn oed pan mae'n haws peidio.	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>
Dydw i ddim yn celu pethau rhag eraill.	<input type="radio"/>	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Dydw i ddim yn gadael tasgau heb eu cwblhau.	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>

Wrth ymateb i'r datganiadau, cadwch y pwyntiau canlynol mewn cof:

- Meddylwch am bob datganiad ac ystyriwch y graddau y maent yn adlewyrchu'ch agweddau a'ch ymddygiadau.
- Byddwch mor onest â phosibl a dilynwch eich greddf gyntaf. Ceisiwch beidio â meddwl gormod am eich ymateb oherwydd fe allai effeithio'n negyddol ar eich perfformiad.
- Mae'r holiadur eisiau gwybod am eich hoffterau yn y gwaith, nid eich bywyd cymdeithasol, felly ceisiwch ateb yng nghyd-destun gwaith bob amser.

Paratoi ar gyfer y Sesiwn Brofi

- Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n cael noson dda o gwsg cyn i chi gymryd y prawf.
- Os ydych chi fel arfer yn gwisgo sbectol neu lensys cyffwrdd, gwnewch yn siŵr eich bod chi'n eu gwisgo pan fyddwch chi'n cymryd y prawf.

Yn Ystod y Sesiwn Brofi

- Dilynwch y cyfarwyddiadau ar gyfer y prawf yn ofalus.
- Os ydych chi'n ansicr ynghylch unrhyw beth, siaradwch â gweinyddwr y prawf cyn i chi gychwyn.
- Ceisiwch beidio â chynhyrfu a chanolbwyntiwch ar berfformio hyd eithaf eich gallu.

Pob lwc â'r prawf. Gobeithio'ch bod chi'n teimlo bod y wybodaeth hon yn ddefnyddiol.